

# SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD I FYWYD GWYLLT YNG NGWYNEDD (STATUDOL AC ANSTATUDOL)

Pwysigrwydd	Dynodiad	Eglurhad
Rhyngwladol (gall mwy nag un dynodiad fod yn berthnasol i bob safle)	Safleoedd RAMSAR	Safleoedd sydd yn bwysig yn rhyngwladol fel gwlyptiroedd, yn arbennig oherwydd yr adar y dwr mudol neu sy'n aros yno dros y gaeaf.
	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)	Cynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol i adar. Fe'u dynodir er mwyn sicrhau goroesiad a atgynhyrchiad rywogaethau prin bridio a mudol.  Mae'r rhain yn ffurfio rhan o rwydwaith o safleoedd rhyngwladol pwysig yn y Gymuned Ewropeaidd (GE) a elwir yn "Natura 2000"
	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)	Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol fel cynefinoedd naturiol. Maent wedi eu dynodi er mwyn gwarchod cynefinoedd neu rywogaethau sydd yn cael eu bygwth neu sy'n brin o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae gan safleoedd sy'n gartref i gynefinoedd neu rywogaethau sydd o dan fygythiad penodol statws 'blaenoriaethol'. Mae'r safleoedd yma yn rhan o'r rwydwaith "Natura 2000" (gweler yr uchod)
Cenedlaethol	Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)	Safleoedd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol, biolegol neu ddaearegol sy'n cael eu rheoli yn bennaf er mwyn gwarchodaeth natur. Mae'r GNC ym mherchnogaeth neu'n cael eu lesu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (GCGC), neu gyrff sy'n cael eu cymeradwyo gan GCGC. Mewn rhai achosion maent yn cael eu rheoli o dan Gytundebau Gwarchodfa Natur gan dirfeddianwyr neu ddeiliad y tir.
	Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Gyda'i gilydd mae'r SoDdGA yn ffurfio casgliad o safleoedd o bwysigrwydd biolegol neu daearegol. Maent yn cael eu dynodi gan GCGC yn unol a chanllawiau cyhoeddedig. Mae rhai SoDdGA wedi cael eu nodi gan GCGC fel Safleoedd Adolygiad Cadwraeth Natur neu Safleoedd Adolygiad Cadwraeth Daearegol sy'n safleoedd allweddol unigol o bwysigrwydd cenedlaethol.  Nodyn: Mae pob Safle Ramsar, AGA, a GNC wedi cael eu dynodi'n SoDdGA.
Rhanbarthol neu leol	Safleoedd Bywyd Gwyllt (SBG)	Nid yw'r SBG yn safleoedd bywyd gwyllt statudol ond maent o bwysig lleol. Mae'r SBG wedi esblygu mewn partneriaeth a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt rhanbarthol ac yn debyg i'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o ran Cadwraeth Natur. Yng Ngwynedd dewisir y safleoedd yma'n ofalus iawn ac yn unol a meini prawf penodol. Mae'r meini prawf ddefnyddir yn debyg i'r rhai ar gyfer SoDdGA, er bod y trothwyon yn is ac yn berthnasol i gymunedau Gwynedd yn unig. Mae'r SBG o werth cadwraeth natur sylweddol a gall rhai SBG gynnwys cynefinoedd sydd o ansawdd cystal â SoDdGA.
	Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNL) a Gwarchodfeydd Natur Anstatudol (GNA)	Mae GNL o bwysigrwydd lleol, o leiaf, yn nhermau cadwraeth natur. Maent yn cael eu dynodi a'u rheoli fel arfer gan awdurdod lleol. Mae ansawdd rhai bron cystal â SoDdGA.  Yng Ngwynedd nodwyd rhai GNA gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru. Mae nifer o'r rhain ar SoDdGA.
	Safleoedd o Bwysigrwydd Daeregol a Geomorffoleg Rhanbarthol (RIGS)	Mae RIGS yn safleoedd anstatudol pwysig ar gyfer gweld nodweddion daearegol, geomorffolegol a gwyddoniaeth daear sydd tu allan i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gwarchodfeydd natur statudol. Maent yn safleoedd statig nad yw'n esblygu. Fe'u nodir gan ddaearegwyr lleol (aelodau o Grŵp RIGS Gwynedd a Môn), mewn ymgynghoriad gyda'r tirfeddianwyr, yn unol â meini prawf penodol.

Fersiwn 1, 2004